# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 9 CHWEFROR 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| J E C Harris | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Richards

131. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

132. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

133. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd ynghylch y gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

134. **HAWL I HOLI CYNGHORWYR.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

135. **ADBORTH AR GRAFFU CYN PENDERFYNU AR Y GYLLIDEB FLYNYDDOL (LLAFAR).**

Cyflwynodd Y Cynghorydd C A Holley, Cynullydd y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid, barn y panel ynglŷn â'r cynigion cyllidebol.

136. **MONITRO CYLLID A CHYLLIDEB CYFALAF 3YDD CHWARTER 2016/17.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chyflwyno adroddiad a oedd yn nodi sefyllfa ariannol y cyngor o ran cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd wrth gefn er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

137. **CYNLLUNIO ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018/19 - 2020/21.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymwaith a phwrpas o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a manylir ar y prif ragdybiaethau cyllid ar gyfer y cyfnod a chynigodd strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**PENDERFYNWYD**:

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018/19 i 2020/21 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaeth yn y dyfodol.

138. **CYLLIDEB REFENIW 2017/18.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2017-2018. Roedd yn manylu ar y canlynol:

- Monitro Ariannol 2016-2017;
- Ardrefniant Cyllid Llywodraeth Leol 2017/2018;
- Rhagolwg o gyllideb 2017-2018;
- Cynigion penodol ar gyfer arbedion;
- Canlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb
- Goblygiadau staffio;
- Gofynion cronfeydd a'r gronfa wrth gefn;
- Gofynion y Gyllideb a Threth y Cyngor 2017-2018;
- Crynodeb o gynigion ariannu;
- Risgiau ac ansicrwydd.

Cynigiwyd yr addasiadau canlynol gan Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad.

**Newidiadau statudol - ar gyngor y swyddog A151**

| | **£** | **£** |
|---|---|---|
| Ailystyried ardoll derfynol yr Awdurdod Tân (dros dro) | 29,000 | |
| | | 29,000 |

**Newidiadau eraill i gynigion o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad**

| | | |
|---|---|---|
| Dileu taliadau parcio ar ddydd Sul yng nghanol y ddinas a dileu cynyddu taliadau parcio ceir | 100,000 | |
| Arafu'r cynnydd ym mhrisiau prydau ysgol o 10c ychwanegol i 5c ychwanegol | 40,000 | |

| | | |
|---|---|---|
| Dileu'r gostyngiad arfaethedig i gymhorthdal y Gwasanaeth Cerdd | 97,000 | |
| | | 237,000 |
| **Cyhoeddiadau newydd** | | |
| Digwyddiadau'r Ddinas (Gorymdaith y Nadolig/ digwyddiadau chwaraeon/parthau cefnogwyr/balchder/ cydlyniant) | 200,000 | |
| Ariannu Tai/Y Fargen Ddinesig | 250,000 | |
| Astudiaeth Dichonoldeb Beiciau Trydanol | 20,000 | |
| Tasgluoedd lleoedd - tîm tipio'n anghyfreithlon | 100,000 | |
| Tasgluoedd lleoedd - parhau i ariannu gwaith y tîm trwsio tyllau yn y ffyrdd | 150,000 | |
| Ehangu Cydlynu Ardaloedd Lleol ymhellach | 80,000 | |
| Digwyddiadau i hen filwyr am ddim | 10,000 | |
| Parcio am ddim mewn ardaloedd dinesig | 20,000 | |
| | | 830,000 |
| **Ac yn olaf, newid i lefel argymelledig Treth y Cyngor** | | |
| Gostwng y cynnydd argymelledig yn Nhreth y Cyngor o 3.0% i 2.75% | | |
| Lleihau cynnyrch cyffredinol Treth y Cyngor (incwm) | 262,000 | |
| Lleihau cost leol y cynllun CGTC ar gynnydd is Treth y Cyngor | -50,000 | |
| | | 212,000 |
| **Cyfanswm cost y cynigion** | | **1,308,000** |
| **Ariennir fel a ganlyn:** | | |
| Lleihau'r gronfa wrth gefn i £5.4m, yn unol â'r blynyddoedd blaenorol | | 1,000,000 |
| Lleihau'r cyllid sydd ar gael i gefnogi costau cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol (cydbwyso) | | 308,000 |
| | | **1,308,000** |

**Mwy o gyhoeddiadau lle na ragwelir costau ychwanegol i'r cyngor:**
Cadarnhau bod y tîm masnachol yn cael ei ariannu
Adolygu lleoedd i'r anabl
Cadw incwm ar gyfer cronfa ad-dalu'r farchnad i ariannu moderneiddio ac adfer toiledau – lefel a dull i'w cadarnhau
Cais cynllunio ar gyfer safle dinesig - angen cyllid Llywodraeth Cymru

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a chytuno ar y newidiadau i'r cynigion cyllidebol yn Atodiad D o'r adroddiad, fel y'u diwygiwyd, ynghyd â'r sefyllfa ynglŷn â'r cyllidebau dirprwyedig fel y nodir yn adran 4.10 yr adroddiad.

2) Nodi'r bwlch adnoddau presennol, a nodwyd yn adran 4.5 yr adroddiad yn unol â'r camau gweithredu posib a nodir yn adrannau 9 a 10 yr adroddiad y cytunwyd arnynt fel cam gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2016-2017;

3) Yn ogystal ag adolygu'r cynigion arbed presennol, mae'r Cabinet:

   a) Wedi adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad;

   b) Wedi cytuno ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2017-2018 i'w hargymell i'r Cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau hyn, fel a nodir ac a restrir uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r Cyngor i'w cymeradwyo:

   a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2017-2018;

   b) Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2017-2018.

139. **CYLLIDEB A RHAGLEN GYFALAF 2017/18 - 2020/21.**

Awgrymwyd yr addasiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2017-18 gan Arweinydd y Cyngor.

| **Cyfalaf** | **£** |
|---|---|
| Darparu 2 x Gae 3G arall | 500,000 |
| Goleuo Adeiladau Cyhoeddus | 100,000 |
| Gwaith ar y Plasdy er mwyn galluogi hygyrchedd cyhoeddus | 200,000 |
| | **800,000** |

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Argymell y Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2016-2017 a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017-2018 - 2020-2021, fel y'i manylir yn Atodiadau A, B, C, CH a D yr adroddiad, fel y'u diwygiwyd, i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

140. **CYLLIDEB REFENIW CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2017/18.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd, a argymhellodd Gyllideb Refeniw ar gyfer 2017-2018 a chynnydd rhent ar gyfer eiddo yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**PENDERFYNWYD** y dylid argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r Cyngor i'w cymeradwyo;

1) Cynyddu rhenti yn unol â pholisi gosod rhenti Llywodraeth Cymru, fel y manylir yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffioedd, taliadau a lwfansau fel yr amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad;

3) Cynigion y Gyllideb Refeniw fel y manylir yn Adran 3 o'r adroddiad.

141. **CYLLIDEB A RHAGLEN GYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2017/18 - 2020/21.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd, a argymhellodd Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2016-2017 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017-2018 - 2020-2021.

**PENDERFYNWYD** y dylid argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r Cyngor i'w cymeradwyo;

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau ar gyfer 2016-2017;

2) Cymeradwyo'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2017-2018 i 2020-2021;

3) Lle mae cynlluniau unigol, fel y'i nodir yn Atodiad B yr adroddiad, wedi'u rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd, bod ymrwymiad iddynt ac y cânt eu cymeradwyo, a bod eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y blynyddoedd dilynol hefyd yn cael eu cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.17 pm

**CADEIRYDD**

**Cyhoeddedig: 10 Chwefror 2017**